**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT: Cydweithio Gwasanaethau Llyfrgell Gogledd Cymru ar gyfer darparu System Rheoli Llyfrgell a Gwasanaethau Llyfryddol / *North Wales Library Services' Collaboration for provision of a Library Management System and Bibliographic Services.*

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER Penderfyniad Cyng. Ioan Thomas

---

PENDERFYNIAD/DECISION

1. Cytuno i Wasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd ymuno a threfniant cydweithredol darpariaeth System Reoli Llyfrgelloedd (LMS) a Gwasanaethau Llyfryddol ar gyfer Gogledd Cymru gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynnal safon gwasanaeth i'r cyhoedd trwy wneud hynny / *Agree to Gwynedd Library and Information Service joining collaborative arrangements for the provision of a Library Management System ( LMS) and Bibliographic Services for North Wales in order to provide efficiency savings and maintain the standard of services to the public.*

2. Cytuno i ddiweddu'r drefn llywodraethu bresennol drwy Gyd- Bwyllgor Aelodau TalNet (Gwasanaethau Llyfryddol Gogledd Orllewin Cymru) a throsglwyddo cyfrifoldeb llywodraethu i Grwp Gweithredol Swyddogion trwy gytundeb cydweithredu ar gyfer pob awdurdod Gogledd Cymru./*Agree to the ending of the present governance arrangements by the TalNet (North West Wales Bibliographic Services ) Joint Committee of Members and to transfer the governance to an Operational Group of Officers in accordance with a collaboration agreement for all the authorities in North Wales.*

3. Cefnogi rôl Gwynedd fel Aelod Arweiniol i hwyluso trefniadau cydweithredol ar gyfer darparu System Reoli Llyfrgelloedd (LMS) i Gymru gyfan, *yn ddarostyngedig i ddirprwyo'r hawl i'r Prif Lyfrgellydd, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid, i gytuno cytundeb sydd yn gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd./ Support Gwynedd's role as Lead Member to facilitate the provision of Library Management System for the whole of Wales, subject to deputising the right to the Principal Librarian in consultation with the Head of Legal and Head of Finance to agree the contract which guards Gwynedd's interests.*

*4.* Cefnogi sefydlu rôl Gwynedd fel Aelod Arweiniol i sicrhau parhad ddarpariaeth Gwasanaethau Llyfryddol ar gyfer Gogledd Cymru, yn ddarostyngedig i ddirprwyo'r hawl i'r Prif Lyfrgellydd, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid, i gytuno cytundeb sydd yn gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd./ *Support the establishment of Gwynedd's role as Lead Member to ensure the continuation of collaboration arrangements for Bibliographic Services for North Wales subject to deputising the right to the Principal Librarian in consultation with the Head of Legal and Head of Finance to agree the contract which guards Gwynedd's interests.*

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn rhannu System Rheoli Llyfrgell (LMS) a Gwasanaethau Llyfryddol gydag awdurdodau Gogledd Orllewin Cymru (Conwy ac Ynys Môn) ers 1996 gan sicrhau arbedion i'r awdurdodau a safon dda o wasanaeth. Yn seiliedig ar yr ymarfer da hwn, adnabuwyd fod angen prosiect i gaffael system gyfrifiadurol ar y cyd ar gyfer rheoli gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus trwy Gymru. Cyflwynwyd y cynllun fel rhan o raglen gweithredu o drefniadau pellach o weithio ar y cyd yn y 'Compact ar gyfer Newid' rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Cafodd y prosiect gymorth gan Fwrdd Gweithredu Gwasanaeth Datblygu Sefydliadau (ODSI) yn 2012 pan dderbyniwyd yr argymhelliad i gyflwyno'n raddol y system rheoli llyfrgelloedd fel rhan o bapur ar ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd i'r dyfodol. Derbyniodd cam Gogledd Cymru'r prosiect cefnogaeth strategol ac ariannol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu'r sector 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli (2012-2016)'.

*Gwynedd Library Service has shared LMS and Bibliographic Services with other authorities in North West Wales (Conwy and Anglesey) since 1996, ensuring savings for the authorities and a good standard of service. Based on this best practice, the need was identified for a project to acquire a joint computer system for the management of public library services throughout Wales. The project was introduced as part of an implementation of further arrangements of working together in the 'Compact for Change' between the Welsh Local Government Association and the Welsh Government. The project received support from Action Board Development Service Organizations (ODSI) in 2012 when it received the recommendation to phase the library management system as part of a paper on the provision of public library services in the future. The North Wales phase of the project received strategic and financial support from Welsh Government as part of the strategic framework for the development of the sector 'Libraries Inspire (2012 – 2016)'.*

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Mae proses caffael ar y cyd ar gyfer LMS newydd wedi ei gynnal gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS). Cytunwyd y byddai cam gyntaf y prosiect yn cynnwys awdurdodau Gogledd Cymru a chytunwyd ar harmoneiddio polisïau i hwyluso defnydd o'r un system. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymorth cymorth ariannol i bwrcasu'r system newydd gyda'r awdurdodau yn cytuno i dalu costau refeniw blynyddol. Yn dilyn cwblhau'r broses tendro gellir nodi fod yr arbedion yn sylweddol ac yn fodd i gynorthwyo'r Gwasanaeth Llyfrgell i gyrraedd arbedion ar gyfer 2015 ymlaen.

*A joint procurement process for new LMS has been conducted by the National Procurement Service (NPS). It was agreed that the first phase of the project was to include the North Wales authorities and they agreed on harmonizing policies to facilitate the use of the same system. Welsh Government has confirmed financial support for the purchase of the new system with the authorities agreeing to pay the Annual revenue costs. Following completion of the tender process it is possible to note that there are significant savings and these will assist the Library Service to achieve savings for 2015 onwards*

Gyda chefnogaeth CLILC a Llywodraeth Cymru cytunodd gwasanaethau Llyfrgell Gogledd Cymru fod rhannu system LMS yn sylfaen i hyrwyddo mwy o gydweithio ar raddfa ehangach rhwng awdurdodau. Mae hyn yn adleisio argymhelliad ar gyfer 'Modelau Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol' yn yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus (Hydref 2014). Penderfynwyd edrych yn y lle cyntaf ar rannu Gwasanaethau Llyfryddol ar draws Gogledd Cymru i geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach. Mae achos busnes cychwynnol wedi ei baratoi a gwaith pellach manwl wedi ei gomisiynu i geisio ei wireddu. */Supported by the WLGA and the Welsh Government, North Wales Library services agreed that sharing LMS system can be the foundation for promoting greater cooperation between the authorities. This echoes the recommendation for 'Service Delivery Models for the Future' in the Expert Review of Public Libraries (October 2014). It was decided to look in the first place to the sharing of Bibliographic Services across North Wales to seek further efficiencies. An initial business case has been prepared and further detailed work has been commissioned to further its realization.*

Mae adnewyddu'r LMS trwy drefniant pwrcasu newydd a'r posibilrwydd o gydweithrediad pellach i gyflenwi i wasanaethau llyfryddol yn golygu fod angen adolygu'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer TalNet Derbyniwyd Cyngor cyfreithiol o Gyngor Conwy ar ran y bartneriaeth i sefydlu cytundeb cydweithredol newydd i gynnwyd yr awdurdodau Gogledd Cymru i gyd gan gadarnhau cyfrifoldebau manwl cefnogi'r trefniant newydd. Cytunwyd nad oedd angen Cydbwyllgor Aelodau i lywodraethu gan gynnig cyfle arall i leihau costau derbyniwyd hyn mewn egwyddor gan Gyd Bwyllgor TalNet ar 19/11/3 a chymeradwywyd cytundeb drafft ar 18.11.14. Bydd cyfrifoldeb y llywodraethu yn trosglwyddo i Grŵp Gweithredol Swyddogion. Fel rhan o drefniadau presennol TalNet mae'r Uned Lyfryddol fwyaf yn y rhanbarth wedi ei gartrefu yng Nghaernarfon, mae rhesymegol felly i Wynedd gweithredu felly Aelod Arweiniol ar gyfer y trefniant newydd. Fel Aelod Arweiniol Gwynedd fyddai gyda'r cyfrifoldeb hwyluso trefniadaeth y cydweithredu gyda throsolwg o gyfoesedd y gwasanaethau cymorth ar gyfer y trefniadau'r bartneriaeth, paratoi'r rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y bartneriaeth a darparu rheolaeth linell weithredol ar gyfer y Rheolwr Systemau.*/The renewal of the LMS through new purchasing arrangements and the possibility of further cooperation to provide bibliographic services has made it necessary to review the current governance arrangements .Legal advice was received form Conwy Council on behalf of the TalNet partnership agreement to establish a new collaborative to include the all North Wales authorities confirming responsibilities detailed supporting new arrangement. Members agreed that there was no need for governance by Joint Committee of Members offering another opportunity to reduce costs. This was accepted in principle by the Joint Committee of TalNet on 19/11/3 and it approved the draft agreement 18.11.14. Responsibility for governance will transfer to an Operational Group of Officers. As part of the current arrangements of TalNet, the largest Bibliographical Unit in the region, is housed in Caernarfon Library, it is reasonable that Gwynedd ac as Lead Member for the new arrangement.*
*As Lead Member Gwynedd would have the responsibility for facilitating the the cooperation by ensuring an overview and currency of support services for the partnership agreement, preparing the agenda for partnership meetings and providing operational line management for the Systems Manager.*

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

"Dim i'w ychwanegu"
*"Nothing to add"*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

"Wrth symud i gyfundrefn newydd mae'n briodol fod adolygiad o'r trefniadau llywodraethu yn cael eu gweithredu. Nodir hefyd fod y trefniadau newydd yn ganlyniad gwaith sydd yn arwain at Gytundeb rhwng yr Awdurdodau perthnasol. Mae'r gwaith o sefydlu'r Gytundeb a'r daflen yma hefyd wedi derbyn mewnbwn penodol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol."
*"In moving to the new system it is appropriate that a review of the governance arrangements are implemented. It is also noted that the new arrangements are the result of work that will lead to an Agreement between the relevant Authorities. The establishment of the Agreement and this notice have also received specific input from the Legal Service. "*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

"Rwy'n croesawu'r datblygiad yma sydd am sicrhau arbedion effeithlonrwydd, ac mewn egwyddor rwy'n gefnogol i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd gymryd y rolau arweiniol pe bai trefn addas i warchod buddiannau'r Cyngor."
"*I welcome this development which will ensure efficicney savings for the authority, and agree in principle for Gwynedd Library Service to take the lead role and ensure arrangements to safeguard the Council's interests*".

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Ddim yn fater lleol /Not a local matter

| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE |
|---|---|
| [signature] | 12/8/15. |